






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r Cyngor

14 Mai 2021



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb o'r Cyngor

14 Mai 2021

Crynodeb o'r prif bwyntiau

- **Yr wythnos hon, mae nifer yr achosion yng Nghymru wedi dechrau cynyddu ar lefel genedlaethol**, gyda chynnydd o 14% i 10.2 achos fesul 100k o'r boblogaeth, er bod y ffigurau cyffredinol yn parhau'n isel a Chymru o fewn y trothwy achosion swyddogol isaf. Ceir amrywiadau cynyddol ar lefel ranbarthol o ran y newid wythnosol, yn erbyn cefndir o ddigwyddedd achosion isel. Bu cynnydd bach, ond mesuradwy, hefyd o ran positifedd profion i 1%.
- Mae'r amcangyfrif diweddaraf o R_t ar gyfer Cymru gan **SAGE** rhwng **0.7 a 1.0** (cyfwng hyder o 90%) ac amcangyfrifir bod y gyfradd twf yn **crebachu o rhwng 5% ac 1%** bob dydd. Noder bod yr amcangyfrifon o R_t a'r gyfradd twf gan SAGE yn cynrychioli trosglwyddiadau COVID-19 ddwy i dair wythnos yn ôl yn hytrach na heddiw.
- Ar 12 Mai, mae'r R_t fel y'i amcangyfrifir gan **lechyd Cyhoeddus Cymru (PHW)** rhwng **0.8 a 1.0** (cyfwng hyder o 95%). Mae'r amcangyfrif hwn yn fwy cyfredol nag un SAGE, ac mae'n cynrychioli trosglwyddiadau o tua 1 wythnos yn ôl. Fodd bynnag, mae'n defnyddio methodolegau gwahanol yn seiliedig ar episodau profi positif ar gyfer SARS-Cov-2.
- Mae'r amcangyfrifon o R_t a chyfraddau twf yn dod yn gynyddol ansicr wrth i dderbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau gyrraedd lefelau isel, gyda chyfran uwch o achosion o ganlyniad i glystyrau o frigiadau o achosion. Ar hyn o bryd, gallai fod yn fwy defnyddiol edrych ar newidiadau wrth fesur digwyddedd a chyffredinrwydd nag R_t .
- Yn ôl lechyd Cyhoeddus Cymru, ar gyfer yr wythnos a ddaeth i ben ar 8 Mai, gwelwyd cynnydd ymhlith y grŵp oedran 30-39 o 44% i 14.8 o achosion fesul 100k, tra bu cynnydd ymhlith y grwpiau oedran 60-79 a 70-79 o tua 20% yr un, er bod y rhain yn niferoedd absoliwt isel iawn. Ymhlith y grwpiau oedran 20-29 a 40-49, gwelwyd gostyngiadau o 17% a 28%, yn y drefn honno. Roedd y digwyddedd achosion uchaf (ac eithrio'r grŵp 90+ oherwydd enwadur bach y grŵp hwn) yn y grŵp oedran 20-29, sef 17 o achosion fesul 100,000.
- Fel yr adroddwyd gan System Imiwneiddio Cymru lechyd Cyhoeddus Cymru, fel yr oedd y sefyllfa am 22:00 ar 15 Mai, mae bron i **2 filiwn o ddosau cyntaf** o frechlyn COVID-19 a bron i **0.9 miliwn o ail ddosau** wedi'u rhoi yng Nghymru.
- Ar gyfer yr wythnos rhwng 2 Ebrill a 8 Mai 2021, mae'r [arolwg heintiadau COVID-19](#) yn amcangyfrif bod cyfraddau heintio COVID-19 yn y gymuned yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol i tua **1 o bob 4,230 o bobl** (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 1580 i 1 o bob 22,280), neu 700 o bobl yn ystod y cyfnod hwn.

Ar 14 Mai, yr amrywiolyn sy'n peri pryder "VOC-20DEC-01" (B.1.1.7, a nodwyd gyntaf yng Nghaint) yw'r amrywiolyn amlycaf yng Nghymru o hyd, gyda **13,045** (+166 ers yr adroddiad diwethaf) o achosion a gadarnhawyd a thebygol ar sail genomeg wedi'u nodi.

Er bod nifer yr achosion yn gyffredinol yn parhau'n isel iawn, mae cyfran yr achosion sy'n VOC21APR-02 (B.1.617.2) wedi cynyddu'n sylweddol mewn rhai rhannau o'r DU. Ar 14 Mai, mae **11 (+6 ers yr adroddiad diwethaf)** o achosion a gadarnhawyd a thebygol ar sail genomeg o'r amrywiolyn hwn wedi'u canfod yng Nghymru.

Ceir tystiolaeth gadarn bod yr amrywiolyn hwn yn fwy trosglwyddadwy na B.1.1.7 (hyder uchel) a gallai ddatblygu i fod yr amrywiolyn amlycaf yng Nghymru, gyda thystiolaeth gynnar (hyder isel) o rywfaint o ostyngiad yn yr amddiffyniad a geir o frechlynnau ac imiwnedd naturiol. Mae modelu [SAGE](#) wedi awgrymu cyn hyn y gallai mantais drosglwyddo o 40-50% o'i gymharu â'r amrywiolyn amlycaf arwain at gynnydd sylweddol unwaith yn rhagor yn nifer y rhai a dderbynnir i'r ysbyty, yn debyg i frigiadau a brofwyd cyn hyn neu'n fwy eto. O'r herwydd, mae'r amrywiolyn hwn yn cynrychioli risg sydd newydd ei nodi sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus a gweithredu cynnar i atal twf heb reolaeth a throsglwyddiad ehangach yn y gymuned yng Nghymru.

Cafwyd hefyd **38 (+1)** o achosion a gadarnhawyd a thebygol ar sail genomeg o **VOC-20DEC-02** (B.1.351, a nodwyd gyntaf yn Ne Affrica) a **15 (+3)** o achosion a gadarnhawyd a thebygol ar sail genomeg o'r amrywiolyn **VUI-21APR-01** (B.1.617, a nodwyd gyntaf yn yr India).

Mae lefelau'r achosion o COVID-19, derbyniadau i'r ysbyty, defnydd gwelyau mewn ysbytai a marwolaethau a welwyd wedi parhau i leihau neu'n parhau'n sefydlog ac maent yn is na'r lefelau a amcangyfrifwyd gan y senarios gwaethaf y mae'n rhesymol eu tybied (RWS) a'r senarios mwyaf tebygol (MLS) ym mis Chwefror 2021. Nid yw'r senarios hyn yn gyfredol mwyach ac felly [mae TAC wedi diweddarau eu MLS a'u RWC](#) i helpu i gynllunio a gwneud penderfyniadau.

Papurau TAG / SAGE a gyhoeddwyd yr wythnos hon:

- [PHE: Investigation of SARS-CoV-2 variants of concern: routine variant data update, 13 May 2021](#)
- [PHE: Investigation of novel SARS-CoV-2 variants of concern \(England\) - Technical briefing 11, 13 May 2021](#)
- [SPI-M-O: Consensus statement on COVID-19, 12 May 2021](#)
- [SAGE 89 minutes: Coronavirus \(COVID-19\) response, 13 May 2021](#)
- [SPI-M-O: Consensus statement on COVID-19, 28 April 2021](#)
- [Dynamic CO-CIN report to SAGE and NERVTAG, 5 May 2021](#)
- [SPI-M-O: Medium-term projections, 28 April 2021](#)

- [University of Warwick: Roadmap scenarios and sensitivity – steps 3 and 4, 5 May 2021](#)
- [SPI-M-O: Summary of further modelling of easing restrictions – roadmap step 3, 5 May 2021](#)
- [Imperial College London: Evaluating the roadmap out of lockdown – step 3, 5 May 2021](#)
- [LSHTM: Interim roadmap assessment – prior to steps 3 and 4, 5 May 2021](#)
- [SAGE 88 minutes: Coronavirus \(COVID-19\) response, 5 May 2021](#)

- [Y Grŵp Cyngor Technegol: diweddariad modelu polisi 5 Mai 2021](#)
- [Cyngor gan y Grŵp Cyngor Technegol a'r Prif Gynghorydd Gwyddonol ar Iechyd: adolygiad 13 Mai 2021](#)
- [Y Gell Cyngor Technegol: crynodeb o'r cyngor 7 Mai 2021](#)
- [Y Grŵp Cyngor Technegol: defnyddio profion gwrthgyrff SARS-CoV-2 mewn lleoliad diagnostig](#)